Sylwadau Cynghorydd Peter Thomas ar adroddiad yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027.

Hoffwn ar y dechrau ddiolch i chi fel swyddogion yn yr adran moderneiddio addysg am eich gwaith dros y dwy flynedd diwethaf yn ystyried dyfodol dwy ysgol gynradd yma yn Dyffryn Nantlle.
Rwyf yn siŵr bod hyn wedi bod yn heriol iawn ac yn broses boenus iawn i chi, ac fel yr ydych yn gwybod i'r rhieni, plant, staff a'r gymuned yn gyffredinol.

Er fy mod wedi bod yn glir o'r dechrau bod niferoedd o blant sydd yn yr ysgol ddim yn gynaliadwy roeddwn wedi gobeithio bysa y cyngor wedi cytuno gyda mi, na y ffordd ymlaen oedd gadael Ysgol Baladeulyn yn agored drwy yr opsiwn o ffederaleiddio gyda Ysgol Talysarn a ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ac anghenion dysgu arbennig ADY.

Mae'r cod trefniadaeth ysgolion yn nodi bod ffederaleiddio yn dod a manteision arbennig i ysgolion gwledig drwy cyd weithio a cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio. Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gyda Ysgol Talysarn o dan arweiniad un pennaeth a un corff llywodraethwyr.

Yn ystod yr ymgynghoriad, mi nes godi pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Baladeulyn ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiais rôl bwysig yr ysgol i groesawu a chynnwys teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, ymysg eraill, i fywyd Cymraeg y gymuned.

Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol yn ergyd drom i'r pentref ac i'r trigolion ac os bydd dim ysgol yna fydd teuluoedd gyda plant ddim yn ystyried prynu neu rhentu tai yn Nantlle, yna yn arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Rwyf yn falch o weld bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Hefyd mae rhaid ystyried yr effaith debygol ar drefniadau teithio a effaith all symud ysgol gael ar y plant.

Mi fysa cau Ysgol Baladeulyn yn ergyd drom i'r gymuned yma yn Nantlle yn ac y teimlad yw bod cau ysgol arall yma yn Gwynedd yn arwydd arall o'r heriau mae ein cymunedau yn ei wynebau yma yn gefn gwlad ein sir.

Fyswn yn ddiolchgar dros ben i'r cabinet ystyrio y pwyntiau rwyf wedi godi ac y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ac yn gwrthod barn yr adran moderneiddio addysg i gau Ysgol Baladeulyn diwedd Rhagfyr 2026.

Diolch yn fawr am eich amser.
Peter Thomas (CYNG/COUN)